O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2012 Rhif 1648 (Cy. 213)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *25 Mehefin 2012* |
| *Yn dod i rym* | *2 Gorffennaf 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Gorffennaf 2012. Enw'r Gorchymyn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A494 (Llanbedr Dyffryn Clwyd, Sir Ddinbych) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2012.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n cychwyn am 07.30 o'r gloch ar 2 Gorffennaf 2012 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu symud oddi yno'n barhaol;

---

(**1**) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

(**2**) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn bellach yn arferadwy gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr “y darn o'r gefnffordd” (“the length of the trunk road”) yw'r darn hwnnw o Gefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494) yn Llanbedr Dyffryn Clwyd yn Sir Ddinbych sy'n ymestyn o ganolbwynt y fynedfa i'r eiddo o'r enw Cae Mawr, i'r dwyrain o Lanbedr Dyffryn Clwyd, i ganolbwynt ei chyffordd â'r B5429 i Fodfari, i'r gorllewin o Lanbedr Dyffryn Clwyd.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn cyfeirio at yr erthygl sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd, yn gyflymach na 10 milltir yr awr ar y darn o'r gefnffordd.

**4.**Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio na gyrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd deithio ar hyd y darn o'r gefnffordd.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 6, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, ddefnyddio cerbyd na chaniatáu i gerbyd gael ei ddefnyddio yn y fath fodd fel ei fod yn goddiweddyd unrhyw gerbyd arall ar y darn o’r gefnffordd ar adegau pan fo'r cyfyngiad y cyfeirir ato yn erthygl 3 yn weithredol.

**6.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiadau a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 6 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 25 Mehefin 2012

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau A Safonau
Llywodraeth Cymru